Ysgol Glan y Môr - Dewisiadau Blwyddyn 9

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dynodi'n union beth sydd yn rhaid ei astudio hyd at ddiwedd Bl 9, ond o ddechrau Blwyddyn 10, bydd rhywfaint o ddewis yn y pynciau a astudir. Mae penderfynu rhwng rhai pynciau a'i gilydd ar ddiwedd blwyddyn 9 felly yn gam naturiol a phwysig tuag at lunio patrwm gyrfa yn y dyfodol.

Bydd pawb yn astudio Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Bydd pawb hefyd yn dilyn yr hyn a elwir yn graidd dysgu sef Addysg Bersonol, Addysg Grefyddol , Dinasyddiaeth a Gyrfaoedd yn ogystal ag Addysg Gorfforol. Bydd hyn yn arwain at gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Yna byddant yn dewis ***TRI*** phwnc arall.

Cyflwynir y pynciau dewisol mewn tair colofn a rhaid i bob disgybl ddewis UN pwnc o bob colofn. Mae y dewis o bynciau yn un hynod bwysig- gallai dewis cyfuniad anghywir gyfyngu ar y dewis o swyddi posib maes o law. Mae manteision garw yn deillio o gadw cydbwysedd yn y dewis o bynciau.

Er mwyn hwyluso'r broses o wneud dewisiadau a sicrhau cyn belled a phosib fod pawb yn gwneud y dewis cywir rydym yn defnyddio'r wefan Gyrfa Cymru Ar Lein (www.careerswales.com) sydd yn rhoi arweiniad ar sut i wneud y dewisiadau cywir yn ogystal a rhoi manylion am swyddi a gyrfaoedd. Mae hefyd yn rhestru'r gwahanol swyddi sy'n berthnasol i'r pynciau a ddewisir yn ogystal a chynnig mathau o swyddi sy'n berthnasol i sgiliau arbennig a lefel cymhwysterau posib.

Bydd disgyblion yn cael eich enwau defnyddwyr a chyfrinair ar gyfer logio ymlaen i Wefan Gyrfa Cymru ym mis Ionawr.

Cant gyfle i ymchwilio i'r gwahanol bynciau a sgiliau byd-gwaith yn y gwersi tiwtorial a dewis eu hopsiynau ar y We. Bydd cyflwyniad i ddisgyblion a rhieni ym Mis Chwefror i drafod Byd-Gwaith /Dewisiadau/ Y BAC. Bydd hefyd cyfle i flasu rhai pynciau sydd yn cael eu cynnig tu allan i'r ysgol yng Ngholeg Meirion / Dwyfor. Bydd angen i bawb ddewis eu pynciau erbyn y Pasg a bydd Noson Rhieni i gael cyfle i drafod rhain gyda'r athrawon / staff y Coleg a chadarnhau'r dewisadau.